# ATODLEN

## HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

### RHAN 1

#### Y WEITHDREFN AR GYFER HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

1 Caiff hysbysiad cosb benodedig gynnig cyfle i berson dalu cosb o £200 ("y gosb") o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cosb.

2 Caiff hysbysiad cosb benodedig gynnig cyfle hefyd i berson dalu cosb is o £150 ("y gosb ostyngol") os telir o fewn cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y bydd yr hysbysiad cosb wedi ei roi.

3 Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi swm gwahanol ar gyfer y gosb neu'r gosb ostyngol.

4 Caniateir i'r gosb neu'r gosb ostyngol gael ei thalu drwy bostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb at y person a ddisgrifir ar yr hysbysiad yn y cyfeiriad a ddisgrifir felly. Bernir y bydd y taliad wedi ei wneud ar yr amser y byddai'r llythyr wedi cael ei ddosbarthu yn nhrefn arferol y post.

5 Nid yw paragraff 4 yn atal y gosb rhag cael ei thalu drwy unrhyw ddull arall.

6 Os yw awdurdod bwyd o'r farn na ddylai hysbysiad cosb benodedig fod wedi ei roi i berson gan swyddog awdurdodedig sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod bwyd, rhaid i'r awdurdod bwyd roi hysbysiad i'r person hwnnw ei fod yn tynnu'r hysbysiad cosb benodedig yn ôl.

7 Os caiff hysbysiad cosb benodedig ei dynnu'n ôl—

(a) rhaid i awdurdod bwyd ad-dalu unrhyw swm sydd wedi ei dalu fel cosb yn unol â'r hysbysiad cosb benodedig, a

(b) ni chaniateir dwyn unrhyw achos na pharhau ag unrhyw achos yn erbyn y person a gafodd yr hysbysiad ar gyfer y drosedd sydd o dan sylw.

8 Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(a) sy'n cymryd arni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran prif swyddog cyllid awdurdod bwyd, a

(b) sy'n datgan bod taliad cosb wedi dod i law neu heb ddod i law erbyn dyddiad a bennwyd yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatganwyd.